Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 27

## Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 27

## The Countryside and Rights of Way Act 2000 (Review of Maps) (Amendment) (Wales) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 February 2026* |
| *Coming into force* | *6 March 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 27

# CEFN GWLAD, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 10(2) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37) ("y Ddeddf") o ran Cymru.

Mae adran 10(2) o'r Ddeddf yn rhagnodi'r cyfnodau amser y mae rhaid i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru (fel y corff cefn gwlad priodol o ran Cymru) gynnal ynddynt adolygiadau cychwynnol a dilynol o fapiau a ddyroddir ganddo ar ffurf derfynol o dan adran 9 o'r Ddeddf, sy'n dangos tir comin cofrestredig a chefn gwlad agored yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 10(2)(b) o'r Ddeddf er mwyn estyn y cyfnod hiraf rhwng adolygiadau dilynol ar ôl adolygiad cyntaf, o 15 mlynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol, i 20 mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 27

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Mawrth 2026.

### Diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

**2.** Yn adran 10(2)(b) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (adolygu mapiau (Cymru))(**2**), yn lle "fifteen" rhodder "twenty".

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Chwefror 2026

(**1**) 2000 p. 37. Mae adran 45(1) yn diffinio "regulations" yn Rhan 1 o'r Ddeddf (o ran Cymru) fel rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 34 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Diwygiwyd adran 10(2) gan Reoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/102 (Cy. 19)) ac adran 236(3)(c) o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 27

# COUNTRYSIDE, WALES

## The Countryside and Rights of Way Act 2000 (Review of Maps) (Amendment) (Wales) Regulations 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend section 10(2) of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c. 37) ("the Act") in relation to Wales.

Section 10(2) of the Act prescribes the time periods within which the Natural Resources Body for Wales (as the appropriate countryside body in relation to Wales) must conduct initial and subsequent reviews of maps issued by it in conclusive form under section 9 of the Act, showing registered common land and open country in Wales.

These Regulations amend section 10(2)(b) of the Act to extend the maximum interval between subsequent reviews following a first review, from 15 years after the previous review, to 20 years.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 27

## COUNTRYSIDE, WALES

## The Countryside and Rights of Way Act 2000 (Review of Maps) (Amendment) (Wales) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 February 2026* |
| *Coming into force* | *6 March 2026* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 10(3) and 45(1) of the Countryside and Rights of Way Act 2000(**1**).

### Title and coming into force

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Countryside and Rights of Way Act 2000 (Review of Maps) (Amendment) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 6 March 2026.

### Amendment of the Countryside and Rights of Way Act 2000

**2.** In section 10(2)(b) of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (review of maps (Wales))(**2**), for “fifteen” substitute “twenty”.

*Huw Irranca-Davies*
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
4 February 2026

(**1**) 2000 c. 37. Section 45(1) defines “regulations” in Part 1 of the Act (as respects Wales) as regulations made by the National Assembly for Wales. The powers of the National Assembly for Wales under sections 10(3) and 45(1) of the Countryside and Rights of Way Act 2000 were transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraphs 30 and 34 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) Section 10(2) was amended by the Countryside and Rights of Way Act 2000 (Review of Maps) (Amendment) (Wales) Regulations 2023 (S.I. 2023/102 (W. 19)) and section 236(3)(c) of the Levelling-up and Regeneration Act 2023 (c. 55); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.